# DAVIES, RICHARD ('Mynyddog'; 1833 - 1877), bardd, datgeiniad, ac arweinydd eisteddfodau



**Enw:** Richard Davies
**Ffugenw:** Mynyddog
**Dyddiad geni:** 1833
**Dyddiad marw:** 1877
**Priod:** Ann Elizabeth Davies (née Francis)
**Rhiant:** Jane Davies
**Rhiant:** Daniel Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, datgeiniad, ac arweinydd eisteddfodau
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth
**Awdur:** Thomas Hughes Jones

Ganwyd yn Dôl Lydan, plwyf Llanbrynmair, 10 Ionawr 1833. Yr oedd ei dad, Daniel Davies, yn ddiacon a blaenor y gân yn yr Hen Gapel, a'i fam, Jane, yn perthyn i deulu llengar. Bedyddiwyd ef gan y Parch. John Roberts, tad 'y tri brawd o Lanbrynmair.' Pan oedd yn 2 oed symudodd ei rieni i'r Fron yn yr un plwyf. Cafodd ei addysg yn ysgol yr Hen Gapel a gedwid gan John Roberts ('J.R.'). Cystadleuodd lawer mewn eisteddfodau yn y mesurau caeth a rhydd, a chymerth ei enw barddonol, ' Mynyddog,' o Newydd Fynyddog, bryn yn yml ei gartref. Nid oes dim arbenigrwydd yn ei waith yn y mesurau caeth, ond daeth ei ddarnau yn y mesurau rhydd yn boblogaidd iawn. Darnau syml canadwy oeddynt, yn sôn am lawenydd a helbul bywyd y bobl, am ffolineb coegfalchder, ac am wrthuni rhagrith; âi yntau i gyngherddau i ganu'r darnau hyn ar alawon poblogaidd gan gyfeilio ar harmonium bychan. Teithiai i Lundain yn aml i glywed y prif gantorion yno, ac efe a gafodd yr harmonium i'r Hen Gapel. Yr oedd galw mawr amdano i feirniadu a datganu, ac yn enwedig i arwain eisteddfodau yng Nghymru a Lloegr.

Cyhoeddwyd tair cyfrol o'i waith yn ystod ei fywyd, *Caneuon Mynyddog*, 1866, *Yr Ail Gynnyg*, 1870, *Y Trydydd Cynnyg*, 1877, a chyfrol arall *Pedwerydd Llyfr Mynyddog* yn 1882. Cyhoeddwyd dwy gyfrol o ddetholiadau o'i waith yn ' Cyfres y Fil.' Ysgrifennodd lythyrau i'r *Herald Cymraeg* a'r *Cronicl* a'r *Dydd*, gan ddefnyddio'r ffugenwau ' Rhywun,' ' Wmffra Edward,' a ' Y Dyn a'r Baich Drain.' Yn y llythyrau hyn ymdriniai â phynciau'r dydd a beirniadu arferion ffôl.

Priododd, 25 Medi 1871, Ann Elizabeth, merch y Parch. Aaron Francis, Rhyl, ac adeiladodd gartref newydd, Bron-y-gân, yng Nghemais, Sir Drefaldwyn. Yn 1876, ar ôl arwain ' eisteddfod y gadair ddu ' yn Wrecsam, aeth i America ar wahoddiad cyfeillion i geisio edfryd ei iechyd, ond gwaethygu a wnaeth, a daeth yn ol i Fron-y-gân, a marw yno 14 Gorffennaf 1877. Claddwyd ef ym mynwent yr Hen Gapel, 19 Gorffennaf.

## Awdur

**Thomas Hughes Jones**

## Ffynonellau

T. R. Roberts ('Asaph'), *Mynyddog Ei Fywyd a'i Waith*

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

## Darllen Pellach

Rhidian Griffiths, 'Davies, Richard (Mynyddog; 1833-77)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), t.141

Erthygl Wicipedia: Richard Davies

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 50584374

Wikidata: Q7325108

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu